



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Bro Dinefwr  
Heol Myrddin  
Ffairfach  
Llandeilo  
Sir Gaerfyrddin  
SA19 6PE**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/04/2017

## Cyd-destun

Mae Ysgol Bro Dinefwr yn ysgol gymysg, naturiol ddwyieithog, i ddisgyblion 11-18 oed. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 1,156 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda 197 yn y chweched dosbarth. Mae Ysgol Bro Dinefwr yn ysgol newydd a agorodd ym Medi 2013, ar draws dau safle ar wahân yn y lle cyntaf. Mae'r ysgol yn gyfuniad o Ysgol Pantycelyn ac Ysgol Tregib. Symudodd yr ysgol i adeilad newydd ym Medi 2016.

Lleolir yr ysgol yn nhref Llandeilo ac mae'n gwasanaethu'r dref ac ardal fawr, wledig yn bennaf. Mae 11.5% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%.

Daw rhyw 48% o'r disgyblion o gartrefi lle mae Saesneg yn cael ei siarad yn bennaf, a daw 30% o gartrefi Cymraeg. Mae 55% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfwerth yn yr ysgol. Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae disgyblion yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan 8% o ddisgyblion, a nodwyd bod angen rhywfaint o gymorth ar 19% arall. Ceir dau adnodd dysgu yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth. Mae 37 o ddisgyblion wedi cofrestru yn yr adnoddau hyn ac fe'u cynhwysir ar gofrestr yr ysgol.

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol a dau bennaeth cynorthwyol dros dro. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers i'r ysgol agor, ar ôl bod yn bennaeth Ysgol Tre-Gib ac Ysgol Pantycelyn yn flaenorol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Dinefwr yn 2016-2017 yw £4,744. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yw £5,432 a'r lleiafswm yw £3,584. Mae Ysgol Bro Dinefwr yn y trydydd safle o'r deuddeg ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

- Mae perfformiad ar y trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, er bod perfformiad bechgyn ar y lefelau uwch gryn dipyn yn is na pherfformiad merched
- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o un cyfnod allweddol i'r llall
- Ym mron pob gwers, mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac mae agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu gan ran fwyaf y disgyblion
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol buddiol, ac mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau bywyd gwerthfawr a medrau cymdeithasol cryf drwy gyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol ac elusennol buddiol
- Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus i helpu disgyblion i wneud cynnydd gwerthfawr
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles disgyblion yn gadarn, a chaiff effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion, er bod presenoldeb wedi bod islaw deilliannau wedi'u modelu am y tair blynedd diwethaf

### Rhagolygon gwella

- Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm arwain weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, ac maent yn cyfleu hon yn dda i staff a rhanddeiliaid
- Mae rolau a chyfrifoldebau clir gan uwch reolwyr a rheolwyr canol, ac maent yn deall llinellau atebolrwydd yn dda
- Mae arweinyddiaeth gref wedi sicrhau safonau uchel mewn cyflawniad disgyblion trwy gydol y broses gymhleth o uno dwy ysgol bresennol a symud i gampws newydd
- Mae uwch arweinwyr yn pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gwella ar sail eu prosesau hunanarfarnu a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- Mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn defnyddio data yn dda i ddadansoddi perfformiad grwpiau o ddisgyblion, er nad oes trosolwg ddigon cynhwysfawr gan yr ysgol ar hyn o bryd o gryfderau a gwendidau'r addysgu ar draws yr ysgol
- Ceir gweithdrefnau addas yn yr ysgol i arfarnu effeithiolrwydd ei gwaith ac i lywio'r cynllunio ar gyfer gwella; fodd bynnag, nid yw'n rhoi ystyriaeth ddigonol i farnau disgyblion a rhieni fel rhan o weithdrefnau hunanarfarnu

## Argymhellion

- A1 Lleihau'r amrywio mewn perfformiad o ran y dangosyddion perfformiad allweddol a gwella perfformiad bechgyn ar y lefelau uwch
- A2 Gwella presenoldeb
- A3 Miniogi'r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant i gynnwys arfarniad cynhwysfawr o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr addysgu
- A4 Sicrhau bod barnau rhieni a disgyblion yn cael ystyriaeth ddyledus fel rhan o brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yr ysgol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio ym mhob dangosydd allweddol bron ers 2013. Yn ystod y cyfnod hwn, mae perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg o ran tua hanner y dangosyddion allweddol. Mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn uwch na'r deilliannau wedi'u modelu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi dirywio ers 2014 ond, ar y cyfan, mae'n gyson ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad sydd yn cynnwys pump gradd TGAU A\*-A wedi dirywio ychydig ers 2014, ond mae'n parhau'n uwch na pherfformiad ysgolion tebyg. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o un cyfnod allweddol i un arall.

Mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn uwch na pherfformiad yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4 yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi gwella ers 2013, ac mae wedi bod yn well na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn o ran y dangosydd sy'n cynnwys pump gradd TGAU A\* ac A gryn dipyn yn is na pherfformiad merched. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae tua hanner y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf mewn TGAU wedi gwella ers 2014. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol ymhell islaw perfformiad mewn ysgolion tebyg. Mewn Cymraeg ail iaith, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn y cwrs llawn ac mae llawer o'r rhain yn ennill graddau A\*-C mewn TGAU.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion naill ai'n parhau â'u haddysg yn yr ysgol neu'r coleg neu'n dechrau gweithio.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu tuedd ar i fyny yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod yn is nag ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf.

Ym Mlwyddyn 13, ers 2013, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni graddau A\*-C mewn Safon Uwch neu gyfwerth wedi gostwng, ac yn 2016, mae ychydig islaw cyfartaledd Cymru. Dros yr un cyfnod, fodd bynnag, mae cyfran uwch o ddisgyblion wedi ennill tair gradd A\*-A o gymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru. Mae cyfran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r trothwy lefel 3 wedi aros yn weddol gyson ers 2014, er y bu dirywiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn ymroi'n llawn i dasgau. Maent yn gweithio'n effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau bach. Mewn ychydig iawn o wersi, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu gwybodaeth a'u medrau oherwydd eu lefelau cymhelliant ac ymgysylltu uchel iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu gwersi. Mae ganddynt afael dda ar waith blaenorol ac maent yn cymhwyso hyn yn dda i ddysgu newydd. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd am nad yw tasgau'n eu herio nac yn ennyn eu diddordeb yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda yn y dosbarth. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau eu hathrawon yn ofalus ac yn gwrando'n astud pan fydd disgyblion eraill yn siarad. Mewn ychydig iawn o wersi, fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwrando'n ddigon da, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus yn y dosbarth ac wrth weithio mewn parau neu grwpiau. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn rhoi ymatebion llafar clir, wedi'u datblygu'n dda, i gwestiynau. Maent yn mynegi'u syniadau'n hyderus gan ddefnyddio terminoleg eang. Fodd bynnag, mae ymatebion llafar lleiafrif o ddisgyblion yn fyr a heb eu datblygu'n ddigonol wrth ateb cwestiynau neu fynegi'u rhesymau.

Mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus. Darllenant yn uchel yn ddeheuig a dangosant ddealltwriaeth dda o'r testunau y maent yn eu darllen. Mewn llawer o bynciau, mae medrau darllen datblygedig gan lawer o ddisgyblion, a defnyddiant y rhain yn llwyddiannus i ddewis gwybodaeth berthnasol o ystod o ffynonellau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dadansoddi technegau'r awdur yn effeithiol, ac yn tynnu tystiolaeth ynghyd yn briodol o ystod o destunau.

Mewn Saesneg, mae disgyblion yn cynhyrchu darnau o waith estynedig clir, wedi'u strwythuro'n dda, at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae llawer yn ysgrifennu erthyglau papur newydd, disgrifiadau ac arfarniadau yn rhugl a chydlynus. Mewn Cymraeg iaith gyntaf, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu estynedig gwerthfawr, a defnyddiant y medrau hyn yn dda mewn amryw o gyd-destunau. Maent yn ysgrifennu'n gywir ac yn mabwysiadu tôn addas wrth ysgrifennu at ddibenion gwahanol, fel ysgrifennu araith ac wrth werthuso barddoniaeth. Mewn ychydig o bynciau, mae disgyblion yn defnyddio geiriaduron yn dda i ehangu'u geirfa. Yn y ddwy iaith ac ar draws llawer o bynciau, fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg sylfaenol, yn cynnwys sillafu termau pwnc allweddol. Mae llawysgrifen a medrau cyflwyno ychydig o ddisgyblion yn wan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn dda ar draws y cwricwlwm, a defnyddiant rifydddeg pen yn llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn hyderus wrth ddefnyddio degolion, canrannau a ffracsiynau, a defnyddiant y rhain yn dda i ddatrys problemau bob dydd. Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi data'n gywir ac yn llunio graffiau a thablau addas i arddangos eu canlyniadau. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod eang o fedrau mesur mewn cyd-destunau gwahanol ar draws ystod addas o bynciau, er enghraifft wrth ddefnyddio mapiau a gridiau i fesur pellter mewn daearyddiaeth.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) addas wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 3 yn hyderus wrth brosesu geiriau, creu cyflwyniadau a chasglu a dadansoddi data. Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau TGCh yn eu gwaith ar gyfer Bagloriaeth Cymru, er enghraifft wrth greu taenlenni, holiaduron a chymwysiadau a gemau diddorol.

### **Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn ymateb yn dda i achosion prin o fwlio. Mae dealltwriaeth dda gan fwyafrif y disgyblion o bwysigrwydd byw'n iach, ac maent yn cyfranogi'n rheolaidd mewn gweithgareddau chwaraeon neu ffithrwydd.

Ym mron pob gwrs, mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac mae agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu gan y rhan fwyaf ohonynt. Mae bron pob disgybl yn gwrtais ac yn barchus iawn at staff, cyfoedion ac ymwelwyr, ac maent yn ymddwyn yn dda mewn gwrsi ac o gwmpas yr ysgol. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol ers i'r ysgol agor, ac mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol wedi bod yn isel dros y tair blynedd diwethaf. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau bywyd a medrau cymdeithasol cryf trwy gyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol ac elusennol buddiol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cyfrannu'n ariannol tuag at ysgol bartner yn Kenya.

Mae tua hanner y disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu pryderon. Trwy'r cyngor ysgol, mae disgyblion wedi gwneud cyfraniadau defnyddiol at ddatblygiadau'r ysgol newydd. Er enghraifft, trwy ddewis cynllun lliwiau'r ysgol newydd, gwisg yr ysgol a chynnwys ychydig o gyfleusterau. Fodd bynnag, nid yw gwaith y cyngor ysgol wedi cael digon o fewnbwn i agweddau eraill ar waith yr ysgol, fel ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Er bod agweddau cadarnhaol at eu gwaith gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, mae presenoldeb wedi bod yn is na deilliannau wedi'u modelu am y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd i gael pryddau ysgol am ddim. Mae data heb ei ddilysu am y flwyddyn addysgol hon yn dangos ychydig o welliant mewn cyfraddau presenoldeb o gymharu â chyfnod tebyg y llynedd mewn rhyw hanner o'r grwpiau blwyddyn.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n bodloni anghenion unigol a gofynion statudol. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol disgyblion.

Mae trefniadau cydweithio effeithiol gyda choleg addysg bellach lleol ac ysgolion cyfagos yn sicrhau bod dysgwyr yn dilyn eu llwybrau dysgu unigol drwy ystod eang o opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol wedi bod yn



greadigol wrth wella'r cwricwlwm ar gyfer ei disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 4 drwy raglen gyfoethogi ddiddorol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl astudio Eidaleg fel pwnc ychwanegol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r holl ddisgyblion yn elwa ar amrediad difyr o brofiadau drwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn lleoliadau dwyieithog. Ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau cymdeithasol a phersonol cadarn drwy weithgareddau cyfoethogi gwerthfawr, er enghraifft cynhyrchiad cerddorol yr ysgol o "Cats".

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cydlynwyr llythrennedd Cymraeg a Saesneg, a'r cydlynnydd rhifedd, yn cynllunio ac yn monitro'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn effeithiol iawn ac mae hyn wedi galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn. Mae'r cydlynwyr wedi gweithio'n ddygn ar draws ystod o bynciau er mwyn cynllunio a chyflwyno prosiectau creadigol a diddorol ar gyfer Blwyddyn 8. Mae'r rhain yn cynnwys y "Prosiect Roved" a chynllun llythrennedd triphlyg arloesol yn seiliedig ar 'Revolting Rhymes' Roald Dahl. O ganlyniad i'r cysylltiadau trawsgwricwlaidd hyn, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'u medrau meddwl, llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach, ac mae cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Caiff addysg cyfrwng Gymraeg ei datblygu'n llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 3 lle caiff bron pob pwnc eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg. Caiff y ddarpariaeth fuddiol hon ei chynnig i ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 hefyd. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn dyrannu amser cwricwlaidd cyfartal i Gymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith a Saesneg. Mae hon yn nodwedd gref. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol, gan gynnwys cyfranogi mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Mae darpariaeth addas i sicrhau bod gan ddisgyblion afael cadarn ar faterion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

### **Addysgu: Da**

Mewn ychydig iawn o wersi, mae addysgu effeithiol iawn a chynllunio gofalus o weithgareddau heriol yn cipio dychymyg disgyblion ac yn ysgogi'u meddwl. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'u pwnc ac yn annog disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a hyderus. O ganlyniad, mae'r cynnydd a wna disgyblion ymhell uwchlaw'r disgwyliadau.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyfathrebu'n glir, maent yn fodolau iaith effeithiol ac mae ganddynt wybodaeth bynciol gyfredol. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion mewn modd sensitif, ac yn trefnu eu hystafelloedd dosbarth a grwpiau disgyblion yn fedrus i gefnogi dysgu effeithiol.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus i helpu disgyblion i wneud cynnydd gwerthfawr. Mae'r gwersi hyn yn symud ar gyflymder priodol gan ddilyn dilyniant rhesymegol a strwythuredig. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'n

dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae llawer o athrawon yn defnyddio strategaethau effeithiol ac adnoddau addas i ddiddori a dal diddordeb eu disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn rhoi adborth llafar anogol i'w disgyblion sydd, yn eu tro, yn ymateb yn dda i'r cyngor a roddir. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd buddiol.

Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr. Yn y mwyafrif o wersi, mae cwestiynau'r athrawon yn taro cydbwysedd effeithiol rhwng gwirio a holi, ac maent yn darparu lefel briodol o her. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, lle mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd, mae cyflymder y dysgu yn rhy araf ac nid yw disgwyliadau yn ddigon uchel. Y rheswm am hyn yw nad yw gweithgareddau dysgu a chwestiynau'r athrawon yn herio ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn ddigonol, neu nad yw disgyblion yn cael cynnig cyfleoedd addas i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae system effeithiol gan yr ysgol i gofnodi cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr cynnydd yn olrhain cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion unigol a grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gynhyrchiol i gynllunio cymorth a gosod her ychwanegol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Mae'r mwyafrif o'r sylwadau hyn yn rhoi cyfeiriad clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o sylwadau yn rhoi arweiniad digon clir bob tro ar beth i'w wella neu sut i wella. Yn ogystal, mae disgwyliadau o ran sut dylai disgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig athrawon yn anghyson o fewn adrannau ac ar draws adrannau.

Mae adroddiadau i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gyflawniad a chynnydd eu plentyn. Mae'r mwyafrif o adroddiadau yn cynnwys strategaethau gwella sy'n benodol i'r pwnc.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles disgyblion yn gadarn. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac agweddau bron pob disgybl.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd chwaraeon, diwylliannol a chreadigol i ddisgyblion, a cheir trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda drwy wasanaethau a rhaglen gynhwysfawr o addysg bersonol a chymdeithasol. Mae staff yn hyrwyddo ymddygiad da ac yn dathlu agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu. Mae trefniadau buddiol i gynorthwyo'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n camymddwyn, ac mae staff yn delio'n effeithiol ag achosion o fwlio. Fodd bynnag, nid yw strategaethau i wella presenoldeb wedi cael digon o effaith ar bresenoldeb ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn gofalu'n dda am blant sy'n derbyn gofal. Darperir cymorth effeithiol i grwpiau sy'n agored i niwed gan anogwyr dysgu'r ysgol. Mae staff yn cynnig cyngor ac arweiniad buddiol i ddisgyblion ynglŷn â dewisiadau a llwybrau gyrfaoedd.

Mae disgyblion yn elwa ar gydweithio agos yr ysgol gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol. Mae'r rhain yn cynnwys seicolegwyr addysgol, therapyddion galwedigaethol, athrawon arbenigol, cwnselwyr, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth hon yn helpu bodloni anghenion penodol disgyblion unigol yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer nodi, cefnogi a monitro anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae disgyblion sy'n agored i niwed a disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol yn elwa ar ystod eang o ymyraethau pwrpasol effeithiol i fynd i'r afael â'u hanghenion unigol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu lles a'r safonau y maent yn eu cyflawni, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae disgyblion yn y canolfannau adnoddau arbenigol yn dilyn amserlenni unigol sy'n bodloni'u hanghenion yn dda. Maent yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfranogi'n ystyrion ym mywyd yr ysgol, a lle bo'n briodol, maent yn gweithio ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau pob disgybl.

Mae gan gymorthyddion dysgu gymwysterau gwerthfawr ar gyfer yn darparu cymorth pwrpasol ac effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r prosesau adolygiad blynyddol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn bodloni gofynion statudol. Mae cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau dysgu priodol, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r cynlluniau a phroffiliau disgyblion yn cynnwys gwybodaeth bwrpaso ac maent yn cael eu rhannu'n effeithiol gyda staff ar ffurf 'pasbort disgybl'.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Bro Dinefwr yn gymuned gynhwysol lle caiff cyflawniad disgyblion ei gydnabod a'i ddathlu. Mae pob disgybl yn cael mynediad priodol i gyfleoedd dysgu yn Gymraeg neu yn Saesneg i fodloni'u hanghenion. Mae staff yn datblygu ethos dwyieithog cryf.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag yw eu hanghenion, eu rhyw neu eu hil. Caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hyrwyddo'n dda drwy ei hystod eang o drefniadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Mae campws newydd yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu rhagorol sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda iawn. Mae'r ystafelloedd dosbarth, labordai a chyfleusterau arbenigol, fel y stiwdio ddrama a'r gegin arlwy, yn darparu amgylchedd gweithio deniadol. Mae ystod helaeth o adnoddau dysgu ysgogol ac offer o ansawdd uchel ar gael i ddisgyblion ym mhob adran.

Mae'r safle yn lân, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Ceir systemau mynediad priodol a chamerau diogelwch i gefnogi diogelwch disgyblion, staff ac adnoddau yn briodol.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm arwain weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac maent yn cyfleu hon yn dda i staff a rhanddeiliaid. Mae'r weledigaeth wedi ei seilio ar wella cyflawniad a phresenoldeb disgyblion, a chynnal safonau ymddygiad uchel. Adlewyrchir hyn yn dda yn arwyddair yr ysgol 'Esgyn ar adain dysg'. Mae arweinwyr a rheolwyr wedi gweithio'n dda â'i gilydd i sefydlu ethos o gwrteisi a dyheadau uchel i ddisgyblion. Mae arweinyddiaeth gref wedi sicrhau safonau uchel o ran cyflawniad disgyblion trwy gydol y broses anodd o uno dwy ysgol bresennol a symud i gampws newydd.

Mae'r uwch dîm arwain yn gwybod yn dda beth yw'r rhan fwyaf o gryfderau a meysydd i'w gwella yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gwella yn seiliedig ar eu prosesau hunanarfarnu a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes gan arweinwyr a rheolwyr olwg ddigon cynhwysfawr o ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.

Mae rolau a chyfrifoldebau clir gan uwch reolwyr a rheolwyr canol, ac maent yn deall llinellau atebolrwydd yn dda. O ganlyniad, mae arweinwyr yn nodi ac yn ymdrin ag unrhyw danberfformiad gan staff yn briodol.

Mae calendr o gyfarfodydd defnyddiol gan yr ysgol ar lefelau uwch reolwyr a rheolwyr canol, gydag agendau priodol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n briodol ar berfformiad a phresenoldeb disgyblion, ac arweinyddiaeth yn bennaf. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, ceir pwyntiau gweithredu perthnasol gyda chyfrifoldeb clir am eu cyflawni.

Ceir trefniadau addas yn yr ysgol ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff. Mae pob aelod o'r staff addysgu a staff cymorth yn cael cyfarfod perfformiad blynyddol buddiol, ac maent yn cytuno ar amcanion perfformiad ar sail eu hanghenion datblygu eu hunain a rhai'r ysgol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw'r amcanion hyn yn cysylltu'n ddigon agos â blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys targedau ar gyfer gwella'r addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, cyfyngedig yw gallu arweinwyr i adnabod a mynd i'r afael â meysydd datblygu yn yr addysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn wybodus iawn ynglŷn â gwaith yr ysgol a deilliannau disgyblion. Maent yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n gadarn at bennu cyfeiriad strategol yr ysgol. Maent yn deall eu rolau a'u chyfrifoldebau yn llawn ac yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol effeithiol iawn i'r ysgol. Mae dealltwriaeth dda gan y llywodraethwyr o ddata perfformiad yr ysgol, a defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i herio arweinwyr a rheolwyr i wella perfformiad disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lefel yr her gan y corff llywodraethol wedi llwyddo i wella presenoldeb.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn datblygu gweithdrefnau addas i arfarnu effeithiolrwydd ei gwaith ac i lywio cynllunio ar gyfer gwella.

Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd ac yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn eu llyfrau, ac ansawdd y marcio a'r asesu ar gyfer adrannau unigol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynnal arsylwadau o wersi yn ddigon rheolaidd i gael arfarniad cywir o ansawdd yr addysgu. Yn ogystal, nid yw'r ysgol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i farnau disgyblion a rhieni fel rhan o'r gweithdrefnau hunanarfarnu. Nid yw trefniadau ar gyfer arfarnu gwaith arweinwyr cynnydd wedi'u datblygu digon ychwaith.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn ddogfen gynhwysfawr. At ei gilydd, mae'n arfarnol ac yn rhoi adroddiad manwl am y rhan fwyaf o agweddau ar waith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o feysydd pwysig i'w gwella yn cael eu nodi'n ddigon clir, er enghraifft presenoldeb ysgol gyfan. Mae'r adroddiad yn defnyddio ystod o dystiolaeth briodol, gan gynnwys dadansoddiad manwl o gyrhaeddiad dros amser, ac mae'n cymharu perfformiad yr ysgol gyda pherfformiad ysgolion tebyg eraill. Fodd bynnag, mae'r arfarniad o'r addysgu yn rhy gadarnhaol ac nid yw'n nodi cryfderau a gwendidau yn yr addysgu a safonau. O ganlyniad, mae gallu'r ysgol i gynllunio gwelliannau mewn addysgu yn gyfyngedig.

Mae bron pob un o'r adroddiadau hunan arfarnu pynciol yn rhoi dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad. O ganlyniad, mae arweinwyr pwnc yn nodi meysydd i'w gwella yn addas. Fodd bynnag, nid yw arfarniadau pwnc yn canolbwyntio digon ar effaith yr addysgu ar ddatblygu medrau disgyblion.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn cysylltu'n addas â'r adroddiad hunanarfarnu ac yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Mae cynllun gwella'r ysgol yn parhau i gael ei fonitro'n fanwl gan y bwrdd gwella a sefydlwyd yn 2014. Fodd bynnag, nid yw targedau perfformiad ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn 2017 yn ddigon uchelgeisiol. Yn ogystal, nid yw cynlluniau'r ysgol yn darparu digon o fanylder ar ddatblygu strategaethau ysgol gyfan i fynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella, fel presenoldeb ysgol gyfan a gwella ansawdd addysgu.

Mae cynlluniau gwella adrannol yn dilyn fformat cyffredin ac yn cynnwys blaenoriaethau addas cyffredinol sy'n adlewyrchu rhai'r ysgol. Dim ond ychydig iawn sy'n cynnwys cynlluniau penodol i ddatblygu'r addysgu, fodd bynnag. Yn gyffredinol, nid yw cynlluniau adrannol yn cynnwys digon o fanylion am weithgareddau monitro, gan gynnwys dyddiadau adolygu, cyfrifoldebau a meini prawf llwyddiant clir.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd gwaith cryf gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cyfrannu'n fuddiol at ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae'r partneriaethau hyn yn gwella profiadau dysgu disgyblion ac yn cyfrannu'n dda at agweddau ar les disgyblion.

